Abdominal Aortic Aneurysm (AAA) Screening

Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme

Don't ignore your AAA screening, it could save your life.

- AAA screening reduces your risk of dying from an AAA (Abdominal Aortic Aneurysm).
- An AAA is a swelling of the aorta. This is the main blood vessel that supplies blood to the body. There is a risk that an AAA may split or rupture.
- Men aged 65 are invited for a one-off ultrasound screening test.
- There is a high risk of dying from a ruptured AAA. Finding an aneurysm early gives you the best chance of treatment and survival.
- AAA screening is a free NHS test that is carried out in community clinics.
- We will send you an invitation letter and information leaflet when you are due for screening.
- The test is a simple, ultrasound scan of your abdomen to measure the size of the aorta. The screener will tell you your result at the time of the test.
- The screening test is not 100% accurate and surgery for AAA carries risks.
- Taking part in AAA screening is your choice. Read the information leaflet carefully to help you make your decision.

What you can do:

- Take part in AAA screening and follow-ups when you are invited.
- Stop smoking and drink less alcohol.
- Maintain a healthy weight through a healthy diet and physical activity.

To find out more:

Visit www.aaascreening.wales.nhs.uk or speak to your GP.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol

Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme

Peidiwch ag anwybyddu eich prawf sgrinio am ymlediad aortig abdomenol, gallai achub eich bywyd.

- Mae sgrinio am ymlediad aortig abdomenol yn lleihau eich risg o farw o ymlediad aortig abdomenol.
- Chwydd yn yr aorta yw ymlediad aortig abdomenol. Yr aorta yw'r brif bibell sy'n cludo gwaed o amgylch eich corff. Mae perygl y gallai ymlediad aortig abdomenol hollti neu rwygo.
- Mae dynion sy'n 65 oed yn cael eu gwahodd am brawf uwchsain unwaith yn unig.
- Mae'r perygl o farw o ymlediad aortig abdomenol sy'n rhwygo'n uchel iawn. Dod o hyd i ymlediad yn gynnar sy'n cynnig y cyfle gorau o gael triniaeth a gwella o'r cyflwr.
- Byddwn yn anfon llythyr gwahodd a thaflen wybodaeth atoch pan fydd yn bryd i chi gael prawf sgrinio.
- Mae'r prawf sgrinio am ymlediad aortig abdomenol ar gael am ddim drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mewn clinigau cymunedol.
- Mae'r prawf yn sgan uwchsain syml o'ch abdomen sy'n mesur maint yr aorta. Bydd y sgriniwr yn rhoi eich canlyniad i chi yn ystod y prawf.
- Nid yw'r prawf sgrinio'n gwbl gywir bob tro, ac mae cael llawdriniaeth am ymlediad aortig abdomenol yn golygu risg.
- Chi sydd i ddewis a fyddwch yn cael prawf sgrinio am ymlediad aortig abdomenol. Ewch ati i ddarllen y daflen wybodaeth yn ofalus i'ch helpu i benderfynu.

Y pethau y gallwch eu gwneud:

- Pan ddaw'r gwahoddiad i gael prawf sgrinio am ymlediad aortig abdomenol, ewch i gael y prawf ac unrhyw driniaeth ddilynol.
- Stopiwch smygu ac yfwch lai o alcohol.
- Cadwch eich pwysau ar lefel iach drwy fwyta diet iach a chadw'ch hun yn egnïol.

I ddysgu mwy:

Ewch i www.aaascreening.wales.nhs.uk neu siaradwch â'ch meddyg teulu.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales